WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Gyfranogiad – **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1741A2020-21

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cafodd y gwaith ei gwblhau gan dîm yn cynnwys Nick Selwyn a Steve Frank.

# Cynnwys

Mae'r Awdurdod yn cyflawni gwaith ymgysylltu da o brosiect i brosiect ond mae ganddo ddiffyg dull strategol integredig o ran cyfranogiad ac mae'n wynebu her wrth geisio prif ffrydio cyfranogiad o fewn ei amgylchedd ariannol a gweithredol presennol.


Adroddiad cryno

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 4

Cyfranogiad 5

Cwmpas ein harchwiliad 6

Ein canfyddiadau 6

Cynigion i wella 13

Atodiadau

Atodiad 1 – enghreifftiau o ddulliau cyfranogi mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y DU 16


# Adroddiad cryno

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y 'Ddeddf') yn gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau o ran iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith, sy'n dweud wrth y cyrff cyhoeddus hynny a gwmpesir gan y Ddeddf sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd.

2 Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru nawr, ac yn y dyfodol, wrth wneud penderfyniadau. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried er mwyn dangos eu bod wedi gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nodir y rheini yn Arddangosyn 1. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn helpu cyrff cyhoeddus i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol, a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor sy'n wynebu Cymru.

Arddangosyn 1: yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio




Ffynhonnell: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion

# Cyfranogiad

3 Ystyr cyfranogiad yw cynnal trafodaethau cyfoethog ac ystyrlon gyda'r bobl yn y gymuned, holi ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt, ac adlewyrchu hynny yn y penderfyniadau a wneir gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae cyfranogiad yn gofyn i sefydliadau fod yn agored i ddylanwadau gan ddinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn lle 'gwneud drosto'. Yn wahanol i ymgynghori, mae cyfranogiad yn gweithio gyda phobl yn gynharach, fel helpu i nodi problemau a datrysiadau posib, a rhoi cefnogaeth iddynt barhau i gymryd rhan trwy gydol y prosesau dylunio, gweithredu a gwerthuso.

4 Gan dynnu ar ein cyflwyniad adborth diweddaraf i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) ar 3 Mai 2019, Diogelwr Taith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a ddatblygwyd gan Gyfranogaeth Cymru, mae Arddangosyn 2 yn crynhoi nodweddion sefydliad sydd â dull cyfranogi effeithiol.

### Arddangosyn 2: nodweddion corff cyhoeddus sydd â dull cyfranogi effeithiol

Caiff cyfranogiad effeithiol ei ymgorffori drwy…

- Sefydliadau yn deall pwy sydd angen cymryd rhan a pham
- Cyrff cyhoeddus yn blaenoriaethu'r lle, amser ac adnodd ar gyfer cyfranogiad ystyrlon
- Sefydliadau yn cynllunio gweithgareddau cyfranogi i sicrhau bod dinasyddion yn gallu dylanwadu ar bolisi a'r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau o'r cyfnod cynharaf
- Dinasyddion yn deall perthnasedd cyfranogi i'w bywydau ac yn ei weld fel ffordd o sbarduno newid
- Sefydliadau yn esbonio pa effaith y mae cyfranogi wedi'i chael ar eu penderfyniadau, polisïau a gwasanaethau
- Dulliau yn sicrhau bod dinasyddion mewn sefyllfa dda i gymryd rhan gan eu bod wedi'u haddasu i ddiwallu eu hanghenion
- Canfyddiadau o weithgareddau cyfranogi yn cael eu defnyddio i lunio a gwella polisïau a'r broses o wneud penderfyniadau
- Prosiectau presennol yn dangos bod dulliau cyfranogi da yn ychwanegu gwerth ac yn arbed costau hirdymor
- Sefydliadau yn sicrhau bod amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli ac yn gallu cymryd rhan
- Sefydliadau yn meddu ar gydberthynas aeddfed ac ymddiriedus â'u rhanddeiliaid
- Y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cael eu dal i gyfrif o ganlyniad i fewnbwn gan y cyhoedd, sy'n helpu i gryfhau tryloywder ac ymddiriedaeth
- Staff, sefydliadau a dinasyddion yn ystyried bod cyfranogi'n bleserus a gwerthfawr
- Dulliau cyfranogi yn helpu gwaith i fod yn gydgysylltiedig ac integredig o fewn y sefydliad ac iddo beidio â bod mewn seilo
- Cyrff cyhoeddus yn defnyddio canlyniad eu cyfranogiad i weithio mewn modd cydgynhyrchiol i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau
- Sefydliadau yn cwblhau gwerthusiad amserol o gyfranogiad i ddysgu am yr hyn sy'n gweithio a nodi'r hyn y mae angen ei wella

5 Dylai awdurdodau felly osod eu hagenda drwy wrando ar bobl, eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon drwy gydol y broses benderfynu, a bod yn agored i newid go iawn o ganlyniad i hynny. Mae'n hanfodol fod gweithgareddau a mecanweithiau ar gyfer cynnwys pobl wedi'u cynllunio, eu monitro a'u hadrodd yn briodol, fel y gallant gael eu datblygu, eu herio neu eu hyrwyddo. Mae sicrhau bod gan staff a sefydliadau'r

sgiliau a strwythurau sydd eu hangen, yn ogystal â'r amser ac adnoddau, i gynnwys y cyhoedd mewn ffordd effeithiol yn hanfodol. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd a'u hanghenion, yn hytrach na'r hyn rydym wedi credu’n draddodiadol ei fod yn gweithio orau.

## Cwmpas ein harchwiliad

6 O ystyried yr heriau i gyrff cyhoeddus o ran ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru rydym wedi adolygu dull a rheolaeth yr Awdurdod o ran cynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau a pholisi, ac wrth gynllunio gweithgareddau. Cytunwyd ar ddau olrheiniwr â'r Awdurdod i ni eu defnyddio i archwilio'n fwy manwl er mwyn profi trefniadau corfforaethol 'ar lawr gwlad' ac ar hyd llwybr trwy brosiectau byw. Y ddau brosiect y cytunwyd arnynt â'r Awdurdod fel a ganlyn:

- **Prosiect Bro'r Sgydau**. Mae Bro'r Sgydau yn gasgliad o raeadrau a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd wedi'i leoli ym mhen Cwm Nedd, o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol, ar y ffin rhwng sir Powys a bwrdeistrefi sirol Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot. Nid yw'r ardal yn unig yn cynnal cynefinoedd a rhywogaethau sy'n rhyngwladol bwysig ond hefyd dros 100 o fusnesau gweithgareddau antur, 290,000 o ymwelwyr y flwyddyn, a nifer o aneddiadau a ffermydd bach. Tair prif thema Uwchgynllun y Prosiect yw: 1) Atal colli ecoleg; 2) Ymgysylltu â phobl a chymunedau; a 3) Cynaliadwyedd economaidd. Nid oes gan Uwchgynllun Rheolaeth Bro'r Sgydau gyllideb benodol ond fe'i cefnogir gan ddau aelod o staff penodol cyfwerth ag amser llawn a ariennir gan amrywiaeth o ffynonellau cyllid grant. Mae buddsoddiad arall yn cynnwys arian sy'n dod o'r gyllideb gyfalaf i dalu am uwchraddio meysydd parcio, ac mewn amser staff o wahanol adrannau.
- **Prosiect iechyd gwyrdd Camau Bychain**. Mae'r prosiect hwn yn fenter iechyd meddwl a llesiant a gyflenwir gan yr Awdurdod gyda chymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl a Seicoleg Oedolion Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Helpodd cyllid Llywodraeth Cymru o £72,000 a roddwyd i'r Awdurdod yn 2018 yn y gwaith o sefydlu'r fenter fel prosiect ymchwil. Cefnogir y prosiect gan chwech o wirfoddolwyr. Mae adnoddau eraill yn cynnwys amser rheoli staff yr Awdurdod, defnyddio cyfleusterau, a gwaith gwerthuso gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

## Ein canfyddiadau

7 Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad fod **yr Awdurdod yn cyflawni gwaith ymgysylltu da o brosiect i brosiect ond mae ganddo ddiffyg dull strategol integredig o ran cyfranogiad ac mae'n wynebu her wrth geisio prif ffrydio cyfranogiad o fewn ei amgylchedd ariannol a gweithredol presennol.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd darganfuom y canlynol.

## Mae'r Awdurdod yn sicrhau cyfranogiad gan randdeiliaid allweddol wrth ddylunio a chyflenwi prosiectau, ond nid yw hyn wedi'i integreiddio o fewn dull strategol cydlynol ar gyfer cyfranogiad

8 Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan arweiniol ar brosiectau ac mae'n cydnabod yr angen am gynnwys partneriaid allweddol dros yr hirdymor er mwyn cynyddu capasiti. Er enghraifft, arwain ar y gwaith o adfywio cymunedau a gwella mesurau traffig ym Mhontneddfechan, lle mae'r Awdurdod wedi arwain ar ymgysylltu a chydweithio â'r gymuned leol. Yn arbennig, mae'r gwaith cadarnhaol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddod o hyd i ffordd a reolir o gael busnesau i gyfranogi at leihau effaith negyddol ymwelwyr trwy gyhoeddi cod ymarfer cytunedig ar y cyd yn gam ymlaen.

9 Mae llawer o'r materion y mae'r Awdurdod yn ceisio ymdrin â nhw o fewn prosiect Bro'r Sgydau yn dyddio'n ôl dros 20 mlynedd ac mae prosiect Bro'r Sgydau wedi newid yn ystod y cyfnod hwn. Darganfuom y bu esblygiad clir yng ngweithgarwch cynllunio prosiectau, o arolygon meysydd parcio i ddatblygu sylfaen dystiolaeth hirdymor am ymwelwyr, anghenion lleol a boddhad defnyddwyr ac mae'r prosiect wedi tyfu erbyn hyn i ddod yn fenter adfywio cymunedol sy'n ceisio ymdrin ag amrediad o faterion lleol. Er y gallwn weld peth integreiddiad yng ngweledigaeth a chynlluniau Bro'r Sgydau â chynghorau cymuned lleol a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus, nid yw gweithgarwch cyfranogi cymunedau a rhanddeiliaid wedi cael effaith amlwg a phendant eto, er bod ymrwymiad parhaus i hynny, ac nid yw cyfranogiad wedi arwain at welliant mewn gwasanaethau.

10 Pryderwn y gallai dyheadau aelodau o'r cyngor cymuned i gynyddu twristiaeth yn sylweddol a chreu mwy o arian yn yr economi leol fod yn afrealistig oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol, y cynnydd cymharol araf hyd yn hyn a'r ymrwymiad gan bartneriaid. Er gwaethaf y gwaith cadarnhaol a wnaethpwyd gan yr Awdurdod i wella'r amgylchedd lleol drwy ei waith ar wella llwybrau ac arwyddion, er enghraifft, ceir sawl problem nad yw ymdrin â hi o fewn cylch gwaith yr Awdurdod. Er bod parodrwydd yr Awdurdod i helpu i'w gymeradwyo, mae cyfranogiad, ac ymrwymiad, rhanddeiliaid allweddol yn amrywiol ac mae'n ddadleuol a yw'r Awdurdod yn y sefyllfa orau i ymdrin â'r materion ar waith – er enghraifft, nid yw penderfynwyr allweddol sydd â'r awdurdod i addo adnoddau a gwneud y newidiadau sydd eu hangen yn cymryd rhan gyson wrth gytuno neu gyflawni'r camau gweithredu angenrheidiol. Mae partneriaeth Bro'r Sgydau hefyd yn canolbwyntio'n hollol ar gyrff cyhoeddus ac nid yw wedi ceisio ehangu'r aelodaeth i gynnwys y sectorau preifat a gwirfoddol.

11 Mewn cymhariaeth, mae'r prosiect Camau Bychain wedi gwneud cynnydd da ac yn esgor canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y rhai a gomisiynodd y prosiect a'r rhai hefyd a fanteisiodd o fod yn rhan a derbyn gwasanaethau. Mae'r ymgysylltiad â staff iechyd a'r cyngor cymuned lleol a'r cyfranogiad ganddynt yn dda yn y prosiect Camau Bychain. Yn arbennig, mae'r dull o werthuso a mesur effaith y prosiect yn

dangos y bu buddion iechyd ar gyfer y rhai a gymerodd ran ac mae seicolegwyr wedi defnyddio amrediad o holiaduron er mwyn monitro hwyliau a'r synnwyr o lesiant. Cynhaliwyd y broses werthuso hon ar hyd oes y prosiect ac mae wedi galluogi'r bwrdd iechyd i fapio cynnydd yn erbyn cyfres o fesurau cyson er mwyn barnu ar y gwelliant ar gyfer unigolion a gymerodd ran yn y prosiect (er nad oedd gwerthusiad diwedd y prosiect wedi'i gyflawni ar yr adeg y cyflawnwyd ein gwaith maes). Er ei lwyddiant, bydd y cyllid ar gyfer y prosiect yn dod i ben yn 2020.

12 Yn ehangach, nid oes gan yr Awdurdod ddull integredig trosfwaol ar gyfer ei holl weithgarwch cyfranogi ac nid yw bob amser yn dysgu o'i ddulliau amrywiol o sicrhau bod pob cyswllt cyfranogi yn gwneud gwahaniaeth. Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ar lunio'r Cynllun Datblygu Lleol, er enghraifft. Er y gwaith cadarnhaol hwn, darganfuom nad yw'r Awdurdod bob amser yn sicrhau bod pobl yn cymryd rhan mewn nodi, datblygu a chytuno ar ddatrysiadau. Er enghraifft, mae gwefan yr Awdurdod yn cynnwys rhan ar gyfranogi sy'n cynnwys gwybodaeth am gysylltu ag aelodau, cyfarfodydd pwyllgor, ymgynghoriadau, gwneud sylwadau a chwynion, dolenni cyfryngau cymdeithasol, a sut i wneud cais am wybodaeth. Gellid gwella ar hyn drwy roi adborth ar ba newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i gyfranogiad i ddangos sut mae cyfranogiad gan ddinasyddion yn llunio gwaith yr Awdurdod. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Awdurdod fethodoleg gorfforaethol ffurfiol o werthuso ymgysylltiad â rhanddeiliaid er mwyn helpu i nodi'r hyn sy'n gweithio a pham.

13 Mae diffinio 'pobl' i’w cynnwys yn heriol oherwydd nid yw cyfranogiad ond am y bobl sy'n byw yn ardal y Parc, y busnesau sy'n gweithio yn ardal y Parc a phartneriaid sector cyhoeddus allweddol, ond hefyd y boblogaeth ehangach. O ganlyniad, mae angen i'r Awdurdod ystyried twristiaid / ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol. Mae llawer o'r rhain yn dod o du allan i Gymru, sy'n gallu achosi her wrth geisio ymgysylltu â nhw. Mae hefyd tensiwn rhwng dau brif ddiben yr Awdurdod – sef gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc. Wrth fynd ymlaen, mae rheoli effaith bosib mwy o ymwelwyr – gan wneud twristiaeth a'i heffaith ar y Parc yn gynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd – yn parhau i fod yn her allweddol i'r Awdurdod a'i bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Hyd yn hyn, mae gwaith cyfranogi wedi canolbwyntio ar ardal yr Awdurdod a'i thrigolion. Mae hyn islaw disgwyliadau'r Ddeddf, sy'n gofyn bod cyrff cyhoeddus yn sicrhau cyfranogiad gan amrediad llawn y defnyddwyr a rhanddeiliaid posibl.

14 Mae cyfranogiad effeithiol felly'n gofyn am symudiad ym mhrosesau meddwl a gwneud yr Awdurdod i sicrhau ei bod hi'n bosib i'r amrediad llawn o bartïon â diddordeb (fel trigolion, busnesau ac ymwelwyr) gyfranogi i'w waith. Yn enwedig y rhai sy'n perthyn i grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd ac sydd wedi'u tangynrychioli fel pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd gweithio drwy grwpiau cynrychioliadol ar draws yr ardal leol a rhanbarth ehangach Cymru yn helpu'r Awdurdod i ganfod ffordd effeithlon o ymgysylltu â grwpiau

cynrychioladol trosfwaol a all roi mewnwelediad a her o ran effeithiolrwydd dulliau cyfranogi presennol ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd.

15 Mae amrediad eang o ddulliau a thechnegau y gellir eu defnyddio i helpu i ddarparu profiad cadarnhaol wrth gyfranogi. Er enghraifft, gweithdai i randdeiliaid, fforymau, e-bleidleisio, cynadleddau, cystadlaethau cymunedol, digwyddiadau mapio, stondinau stryd, digwyddiadau tŷ agored, fideograffeg, gweminarau, sesiynau galw heibio a hysbysebu. Mae'r rhain i gyd yn opsiynau i'r Awdurdod eu hystyried wrth ddatblygu dull o sicrhau cyfranogiad sy'n fwy strategol ac sy'n ymestyn ar hyd y gorfforaeth gyfan. Mae dull yr Awdurdod o ran datblygu ac annog darpariaeth yn y Gymraeg yn rhy oddefol. Nid yw'n annog cyfranogiad gan bobl a chymunedau i lunio'i ymdrechion i drechu dirywiad graddol y Gymraeg. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod yr Awdurdod yn hyrwyddo'r Gymraeg fel blaenoriaeth allweddol.


## Mae'r Awdurdod yn cael anhawster wrth gryfhau ei waith cyfranogi yn yr amgylchedd ariannol a gweithredol heriol

16 Mae effaith cyni yn parhau i fod yr her fwyaf sylweddol sy'n wynebu’r holl awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae effaith fyrdymor cyllid Llywodraeth Cymru a dyrannu cyfalaf a refeniw ychwanegol yn agos at ddiwedd y flwyddyn yn parhau i effeithio ar allu'r Awdurdod i gynllunio ar gyfer yr hirdymor. Mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd gweithredu a heriau presennol yn golygu ei bod yn ansicr pa mor gynaliadwy yw dull cyfranogi'r Awdurdod, a ph'un a all yr Awdurdod fabwysiadu safbwynt hirdymor digonol.

17 Yn 2018-19, gwnaeth yr Awdurdod warged ar ddarparu gwasanaethau o £51,000 (gwarged 2017-18 oedd £657,000). Mae Arddangosyn 3 isod yn nodi bod cyllid craidd yr Awdurdod o’r grantiau ac ardollau ar gyfer parciau cenedlaethol wedi gostwng yn sylweddol ers 2014-15. Gwrthweithiodd y dyfarniadau grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19 yn erbyn effaith y gostyngiadau blynyddol.

Arddangosyn 3: cyllid craidd a grantiau ychwanegol

Mae cyllid craidd o'r grantiau ac ardollau ar gyfer parciau cenedlaethol wedi gostwng ers 2014-15. Gwrthweithiodd y cyllid grant ychwanegol a dderbyniwyd ar ddiwedd 2016-17, 2017-18 a 2018-19 yn erbyn hyn.





Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Llythyr Archwilio Blynyddol, 3 Rhagfyr 2019.

18 Ar sail y ffaith na chynlluniwyd ar gyfer y cyllid grant ychwanegol, mae cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod wedi cynyddu yn y blynyddoedd hyn. Cedwir y cronfeydd hyn fel cronfeydd a glustnodwyd nes iddynt gael eu cynnwys mewn gwariant cyllid – Arddangosyn 4 isod. Mae rhoi ystyriaeth ofalus i falansau'r cronfeydd wrth gefn a sut y gellid eu defnyddio i gefnogi cynlluniau ariannol yn hynod bwysig, oherwydd nid yw'n gynaliadwy dibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gefnogi costau parhaus. Unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn wedi'u gwagio, rhaid dod o hyd i ffynonellau cyllid neu arbedion effeithlonrwydd eraill. Yr her sy'n wynebu'r Awdurdod yw penderfynu sut i ddefnyddio cronfeydd a gynhyrchwyd o ganlyniad i dderbyn grantiau annisgwyl yng nghyd-destun gostyngiad yn y cyllid craidd.

Arddangosyn 4: cronfeydd y gellir eu defnyddio

Cynyddodd y cronfeydd y gellir eu defnyddio bron £3 miliwn rhwng 2014-15 a 2018-19 o ganlyniad i gyllid pwysau ariannol ychwanegol yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19.




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Llythyr Archwilio Blynyddol, 3 Rhagfyr 2019.

19 Yn ddiweddar, datblygodd yr Awdurdod raglen rheoli newid er mwyn ymateb i'r amgylchedd gweithredu heriol hwn. Wrth ganol rhaglen newid yr Awdurdod mae newid ffocws blaenoriaethau tuag at adfer tirwedd a natur, ymgysylltu a deall, a mentrau cefn gwlad. Mae naw blaenoriaeth yn cefnogi'r themâu hyn ag ynddynt pum rhaglen waith allweddol. Mae hyn yn uchelgeisiol, yn arbennig oherwydd yr ansicrwydd sydd wedi codi o ganlyniad i'r newidiadau yn y gweithlu sydd ar waith. Yn dilyn hyn, mae uwch-reolwyr yn cydnabod bod angen mwy o eglurder a phwrpas i gyd-fynd â dyheadau o ran y cyllidebau a'r adnoddau sydd ar gael.

20 Er y gwelodd yr Awdurdod gynnydd yn ei gronfeydd dros y blynyddoedd diweddar, mae hefyd wedi ceisio dod o hyd i ffynonellau eraill o gyllid i wrthweithio yn erbyn gostyngiadau yn y cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae llawer o'r gweithgarwch cyfranogi yn cael ei ariannu gan grantiau ac yn gynyddol arweinir gweithgarwch cyfranogi gan 'brosiectau'. Oherwydd bod pob prosiect yn cael ei ariannu gan wahanol grantiau, yn gweithredu yn ôl gwahanol feini prawf dyfarnu, yn gweithio i wahanol raddfeydd amser ac yn cyflenwi gwahanol ganlyniadau, bach iawn o gysondeb sydd rhwng prosiectau. Yn aml, mae ffocws y gwaith prosiect yn adlewyrchu blaenoriaethau'r corff dyfarnu, nid o reidrwydd blaenoriaethau'r Awdurdod. Gall rheoli prosiectau lluosog hefyd fod yn drwm ar adnoddau gyda llawer yn cychwyn o'r newydd wrth i un prosiect ddod i ben ac wrth i'r Awdurdod geisio am gyllid newydd. Felly nid yw gweithgarwch a arweinir gan brosiectau'n

helpu wrth ddatblygu ac ymgorffori dull strategol tuag at gyfranogiad. Darganfuom fod hyn wedi arwain at fodelau gwahanol iawn ar gyfer cyfranogiad.

21 Mae perygl y cyflenwir prosiectau mewn seilos heb fawr o gysylltiad rhwng y timau er mwyn dysgu'r hyn sy'n gweithio a pham ac mae hyn o ganlyniad islaw disgwyliadau'r Ddeddf o ran cyfranogiad ac felly mae angen gwneud mwy o ran integreiddio'r gwaith presennol. Ceir gwendidau hefyd mewn trefniadau rheoli prosiectau ar gyfer gweithgarwch cyfranogi lle nad yw cynlluniau gweithredu'n ddigon eglur neu'n ddigon penodol er mwyn cynnig cyfeiriad i'r gwaith neu ddangos sut yr aethpwyd ati i ymdrin â phryderon defnyddwyr a rhanddeiliaid. Er enghraifft:

a. Mae'r adroddiad drafft ar yr Astudiaeth i Draffig Ymwelwyr Bro'r Sgydau yn cynnwys amrediad o fwriadau i adolygu neu ystyried ac nid oes camau gweithredu o sylwedd i symud yn eu blaen;

b. Yn bennaf, mae cynlluniau gweithredu'n canolbwyntio ar fesur canlyniadau rhifyddol ac yn cael anhawster wrth fonitro canlyniadau ansoddol ar gyfer pobl o ran effaith cyfranogiad arnynt ac nid ydynt bob amser yn adrodd yn ôl ar y newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i gyfranogiad; ac

c. Mae llawer o'r problemau a fodolodd yn 1994 yn dal i fodoli yn 2018-19 ac nid yw'n glir pa welliannau ystyrlon sydd wedi digwydd dros yr 20 mlynedd diwethaf.

22 Yn gorfforaethol, mae'r capasiti i gyflenwi prosiectau rheng flaen bach yn fregus ac yn fyrdymor ac mae'r ailstrwythuro presennol gydag 19 o swyddi staff yn y fantol – tua 20% o'r gweithlu – yn cael effaith fawr ar forâl a chyflymder y newid ac yn achosi peryglon sylfaenol ar gyfer cydnerthedd corfforaethol. O ganlyniad, nid yw bob amser yn glir sut mae gweithgarwch cyfranogi yn cael effaith amlwg a phendant ac yn arwain at wella gwasanaethau.

# Cynigion i wella

23 Yn hytrach na rhestru cynigion i wella, rydym wedi llunio hunanasesiad i staff ac aelodau'r Awdurdod ei ddefnyddio i nodi cryfderau a gwendidau ei ddull gweithredu presennol o ran cyfranogi. Gellir defnyddio'r hunanasesiad hwn ar lefel strategol gorfforaethol ond hefyd ar brosiectau unigol i asesu cynnydd yr Awdurdod ac i weld ble mae angen newid er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei brif ffrydio a'i fod yn gynaliadwy. Disgwyliwn i'r Awdurdod ddefnyddio'r offeryn hwn i werthuso ei berfformiad cyfredol ac i nodi sut y gall wella ei waith.

Arddangosyn 5: hunanasesu

| Cam gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen i ni wella ein dull gweithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar adegau ond mae cyfleoedd i wella ein dull gweithredu | Nid ydym yn gwneud hyn yn dda ac mae angen i ni wella ein dull gweithredu |
|---|---|---|---|
| Mae gennym ddull cyfranogi strategol sy'n cyfeirio ein holl weithgarwch | | | |
| Rydym yn deall pwy sydd angen eu cynnwys a pham | | | |
| Rydym yn blaenoriaethu lle, amser ac adnoddau ar gyfer cyfranogiad ystyrlon | | | |
| Rydym wedi cynllunio ein gweithgarwch cyfranogi i sicrhau bod dinasyddion a phartneriaid yn gallu dylanwadu ar ein polisïau a'n cynlluniau | | | |

| Cam gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen i ni wella ein dull gweithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar adegau ond mae cyfleoedd i wella ein dull gweithredu | Nid ydym yn gwneud hyn yn dda ac mae angen i ni wella ein dull gweithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi cynllunio ein gweithgarwch cyfranogi i sicrhau bod dinasyddion a phartneriaid yn gallu dylanwadu ar ein dull o gynllunio a darparu gwasanaethau | | | |
| Rydym wedi egluro wrth ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd eu cyfranogiad yn helpu i wella eu bywydau | | | |
| Rydym wedi egluro wrth ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd eu cyfranogiad yn arwain at newid | | | |
| Rydym yn egluro'r effaith mae cyfranogiad wedi'i chael ar ein penderfyniadau, polisïau a gwasanaethau | | | |
| Rydym yn teilwra ein dull cyfranogi i sicrhau y gall yr holl ddinasyddion a phartneriaid gymryd rhan | | | |
| Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau o weithgarwch cyfranogi i lunio a gwella'r dull o wneud polisïau a phenderfyniadau | | | |
| Gallwn ddangos bod ein dull cyfranogi yn ychwanegu gwerth at yr hyn a wnawn | | | |
| Gallwn ddangos bod ein dull cyfranogi yn arbed costau hirdymor | | | |
| Rydym yn sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn gallu cymryd rhan yn yr hyn a wnawn a'n dull o'i wneud | | | |
| Mae gennym berthynas aeddfed a ffyddlon â'n holl randdeiliaid | | | |

| Cam gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen i ni wella ein dull gweithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar adegau ond mae cyfleoedd i wella ein dull gweithredu | Nid ydym yn gwneud hyn yn dda ac mae angen i ni wella ein dull gweithredu |
|---|---|---|---|
| Mae ein dull cyfranogi yn golygu y gall ein partneriaid ein dwyn i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn | | | |
| Mae ein dull cyfranogi yn golygu y gall dinasyddion ein dwyn i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn | | | |
| Mae ein dull cyfranogi yn bleserus a gwerthfawr | | | |
| Mae ein partneriaid o'r farn fod ein gwaith cyfranogi yn bleserus a gwerthfawr | | | |
| Mae ein dinasyddion o'r farn fod ein gwaith cyfranogi yn bleserus a gwerthfawr | | | |
| Mae ein dull cyfranogi yn ein helpu i integreiddio ein gwaith er mwyn osgoi seilos | | | |
| Rydym yn defnyddio canlyniad ein gwaith cyfranogi i gydweithio er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau | | | |
| Rydym yn gwerthuso ein gwaith cyfranogi yn amserol er mwyn gweld beth sy'n gweithio | | | |
| Rydym yn gwerthuso ein gwaith cyfranogi yn amserol er mwyn gweld beth sydd angen ei wella | | | |

# Atodiad 1

## Enghreifftiau o ddulliau cyfranogi yn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y DU

Mae Parciau Cenedlaethol Lloegr wedi llunio canllawiau ar gyfer sefydliadau ac unigolion sydd am gyfrannu at ddatblygu Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Gweler nationalparksengland./get-involved, get-involved-in-a-national-park-management-plan a chyhoeddiadau Parciau Cenedlaethol Lloegr. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r diffyg allbwn gan Barciau Cenedlaethol Cymru, er gwaethaf buddiannau cydweithio ar faterion cyffredin.

Mae parciau cenedlaethol mewn mannau eraill yn defnyddio cyfryngau lluosog a chymysg i ymgysylltu â chymunedau ac atal problemau. Gofynnodd Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs i'w gymunedau ateb y cwestiwn canlynol: **Sut rydych chi'n newid ymddygiad cerddwyr cŵn anghyfrifol heb eu pardduo?** Gweler yr atebion yma ac maent yn dangos beth y gellir ei gyflawni drwy ddefnyddio dull gwahanol o gynnwys arbenigwyr pwnc a busnesau lleol er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau.

Mae Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms 2018-2022 yn cynnwys rhai nodweddion allweddol sy'n galluogi'r awdurdod parc cenedlaethol hwn i gyflawni gweithgarwch cyfranogi'n fwy effeithiol. Ymhlith y nodweddion mae:

- cynnwys sylfaen o wybodaeth a data ar ba mor effeithiol mae'r awdurdod parc cenedlaethol yn cynnwys y cyhoedd, mesur ymwybyddiaeth pobl o'r hyn sy'n digwydd yn y parc cenedlaethol, sut maent yn hoffi cymryd rhan, a barn pobl am wasanaethau;
- ymrwymiad i werthuso gwaith ymgysylltu, gan fesur canlyniadau lle bo'n bosib, profi effaith, a dysgu a gwella'n barhaus;
- gweithgarwch cyfranogi sy'n integreiddio gwaith partneriaid cyfagos ac ymgyrchoedd cenedlaethol, er enghraifft BIG Weekend Scottish Nature; ac
- un o'r prif flaenoriaethau yw bod yr awdurdod parc cenedlaethol yn ysbrydoli cenedlaethau newydd i fod yn hyrwyddwyr y parc a chymryd yr awenau ar brosiectau cymunedol yn y dyfodol.

Mae adroddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors ar fesur effaith iechyd a llesiant ym mis Tachwedd 2018 yn amlygu pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud i waith yr Awdurdod. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- sut mae'r Awdurdod wedi cynnwys gweithgarwch cyfranogi yn ei gyfrifiadau budd cymdeithasol o fuddsoddi, a'r gwerth y mae barn pobl yn ei ychwanegu. Caiff newidiadau penodol ar ôl ymgynghori eu holrhain a'u gwerthfawrogi.
- mae pobl yn ymgysylltu'n well pan fyddant yn deall y buddiannau llesiant y gallent eu profi ac ar ôl cael gwybodaeth am rinweddau arbennig y parc. Mae hyn yn cynnwys dweud wrth bobl am yr hyn y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei wneud a sut yn union y gallant gymryd rhan.

- ym marn yr Awdurdod caiff y data gorau ei gasglu fel rhan arferol o waith yr Awdurdod neu fel rhan ganolog o unrhyw ymyrraeth, menter, rhaglen neu weithgarwch. Credant fod pobl yn llai parod i ddarparu adborth neu safbwyntiau mewn digwyddiadau penodedig ac mae angen iddynt ddeall pa mor berthnasol yw cyfranogi i'w bywydau a chael eu sicrhau y bydd yr Awdurdod yn rhoi newidiadau ar waith.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru